# Uned 2F: Defnyddio cyfrifiadur i greu cyfansoddiadau cerddorol

## Ynglyn â'r uned hon:

Yn yr uned hon bydd plant yn archwilio a datblygu syniadau cerddorol gan ddefnyddio TGCh a dulliau eraill. Byddant yn defnyddio meddalwedd cerddoraeth syml, i gyfansoddi a chyfathrebu eu syniadau cerddorol. Byddant yn cadw ac adfer eu gwaith gyda chymorth.

Bydd y plan tyn gallu cymhwyso'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu yn yr uned hon mewn cerddoriaeth.

## Ble mae'r uned yn ffitio:

Mae'r uned hon yn cymryd yn ganiataol bod disgyblion yn gallu:

- Defnyddio TGCh i wneud dewisiadau
- Deall yr angen i arbed gwaith
- Gwrando'n ofalus ar gerddoriaeth a siarad am ganeuon y maen nhw'n eu mwynhau

## Geirfa :

| Dilyniant | Cyfansoddi | Brawddeg | Cadw | Adfer | Offeryn |

## Adnoddau:

| Meddalwedd syml i gyfansoddi cerddoriaeth gydag eiconau i gynrychioli brawddegau cerddorol | meicroffon cyfrifiadur| cardiau cerddorol sy'n dangos cynrychioliadau darluniadol draw i'w ddefnyddio gydag offerynnau taro sydd wedi'u tiwnio|

## Disgwyliadau: ar ddiwedd yr uned hon,

*Bydd mwyafrif y plant yn gallu:* defnyddio meddalwedd gerddorol i ddatblygu cyfansoddiad cerddorol a chadw ac adfer gwaith gyda chymorth

*Bydd rhai plant dim ond yn gallu:* defnyddio meddalwedd gerddorol i greu dilyniant o frawddegau cerddorol

*Hefyd bydd rhai plant yn gallu:* defnyddio meddalwedd gerddorol i ddatblygu a mireinio cyfansoddiad cerddorol a dechrau cadw ac adfer gwaith yn annibynnol.



Mae'r unedau hyn wedi'u haddasu o ddeunyddiau sydd ar gael ar wefan Cynlluniau Gwaith y QCA

ICT Curriculum Team
*Tîm Cwricwlwm*

Cynllun Gwaith Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

| **Amcanion Dysgu**<br>Dylai disgyblion ddysgu… | **Gweithgareddau Posib** | **Canlyniadau Dysgu**<br>*Gall disgyblion…* | **Pwyntiau i'w Nodi** |
|---|---|---|---|
| **Gosod yr Olygfa** | | | |
| • **Syniad allweddol:** gall brawddegau cerddorol gael eu cynrychioli gan eiconau.<br>• **techneg:** gwrando ar y brawddegau cerddorol a nodi gwerthoedd nodau a phatrymau<br>• trefnu eiconau i gyfansoddi alaw | • Dangoswch darn o feddalwedd cerddorol lle mae eiconau'n cynrychioli brawdegau cerddorol.<br>• Gwrandewch ar bob brawddeg a gofynnwch i'r plant rifo nifer y nodau ym mhob brawddeg, canu'r brawddegau, clapio/tapio/curo'r nodau yn y brawddegau, canfod nodau uwch ac is, a nodau hirach a byrrach a thrafodwch y gwahaniaethau mewn patrymau nodau mewn brawddegau penodol.<br>• Dangoswch drefnu'r eiconau er mwyn iddynt ganu alaw, gan wneud ymdrech penodol i annog y plant i wrando am frawddeg agoriadol a chau dda. Dywedwch wrth y plant eu bod yn mynd i greu eu cyfansoddiadau eu hunain. | • Deall bod brawddegau cerddorol yn cynnwys nodau<br>• Deall gall nodau fod yn uchel neu'n isel a gallant fod yn hir neu'n fyr<br>• Deall y gellir trefnu brawddegau cerddorol i greu cyfansoddiad | • Gall Bwrdd Gwyn Rhyngweithiol fod yn declyn defnyddiol i gyflwyno'r gweithgaredd hwn<br>• Gellir defnyddio offer taro go-iawn i dapio'r nodau a chyfeilio i'r cyfansoddiad.<br>• Gallai disgyblion chwarae a recordio offerynnau cerdd go-iawn i greu eu brawddegau cerddorol eu hunain i gynrychioli lluniau o'r tywydd fel glaw, storm etc. |
| **Tasg fer wedi'i ffocysu** | | | |
| • **Syniad allweddol:** bod brawddegau cerddorol yn gallu cael eu cyfuno i greu cyfansoddiadau<br>• **techneg:** dewis a threfnu eiconau sy'n cynrychioli brawddegau cerddorol i greu cyfansoddiad<br>• cadw gwaith gyda chymorth | • Defnyddiwch hwiangerddi etc. i ddangos i'r plant fod patrymau gan gerddoriaeth. Anogwch y plant i ddefnyddio ailadrodd a phatrwm i ddilyniannau eu brawddegau cerddorol i gyfansoddi alaw.<br>• Mae plant yn defnyddio eu cyfansoddiadau gan ddefnyddio'r brawddegau cerddorol gan gynnwys brawddeg agoriadol a chau addas a defnyddio patrwm a strwythur wrth drefnu eiconau.<br>• Maen nhw'n newid yr eiconau i wella eu cyfansoddiad ac arbed eu gwaith gyda chymorth | • Deall bod gan gerddoriaeth batrwm a strwythur a bod angen trefnu brawddegau cerddorol yn effeithiol i greu cyfansoddiad.<br>• Newid eiconau i wella eu halaw a siarad am eu rhesymau dros wneud hynny. | • Mae'n bwysig bod y plant yn cael eu hannog i wrando ar eu cyfansoddiad a chyfansoddiadau pobl eraill ac yn gallu canfod patrymau a siarad am y pethau y maent yn eu hoffi. |

| **Amcanion Dysgu**<br>Dylai disgyblion ddysgu… | **Gweithgareddau Posibl** | **Canlyniadau Dysgu**<br>*Gall disgyblion…* | **Pwyntiau i'w Nodi** |
|---|---|---|---|
| **Tasgau byr wedi'u cwblhau (Parhad.)** | | | |
| • **Syniad allweddol:** bod eu cyfansoddiad yn gallu cael ei addasu a'i wella drwy newid y cyflymder (tempo) a thrwy newid yr offeryn cerdd sy'n canu'r alaw.<br>• **techneg:** cadw eu gwaith gyda chymorth , dewis tempo priodol a rhoi cynnig ar offerynnau cerddorol eraill i wella'u cyfansoddiad. | • Dangoswch i'r plant sut i newid y tempo a dewis offerynnau cerddorol neu frawddegau eraill i newid yr awyrgylch neu deimlad y cyfansoddiad.<br>• Helpwch nhw i adfer eu cyfansoddiad a wnaethant arbed yn gynharach a dwedwch wrthynt i arbrofi drwy newid y tempo a'r offeryn a ddefnyddiwyd.<br>• Helwpwch nhw i gadw eu newidiadau gydag enw sydd ychydig yn wahanol i'w gwaith gwreiddiol, er mwyn iddynt allu cymharu y ddau ddarn a thrafod eu gwaith yn sgîl y newidiadau a wnaed.<br>• Gadwech i'r plant berfformio eu cyfansoddiadau i ddisgyblion eraill. | • Cadw gwaith gyda chymorth<br>• Newid tempo a dewis offerynnau cerdd gwahanol.<br>• Cymharu eu gwaith gwreiddiol gyda'r darn a newidiwyd a siarad am y newidiadau a wnaed.<br>• Perfformio eu cyfansoddiad i bobl eraill. | • Yr effaith y mae tempo yn ei chael ar naws<br>• Maen nhw'n gallu defnyddio'r corff fel offeryn taro neu offerynnau cerdd fel cyfeiliant i'w cyfansoddiad drwy dapio'r nodau allan yn y brawddegau a ddewisiwyd. |
| • **Syniadau allweddol:** mae alawon a chaneuon cyfarwydd yn cynnwys brawddegau cerddorol.<br>• **techneg:** gallu adnabod brawddegau cerddoorol er mwyn trefnu alaw gyfarwydd yn gywir. | • Dangoswch set o frawddegau cerddorol wedi'u cymysgu i'r plant a dangos eu bod yn gallu ad-drefnu'r eiconau yn y drefn gywir i ail-greu alaw gyfarwydd.<br>• Rhowch set o frawddegau wedi'u cymysgu i'r plant a gofynnwch iddynt eu had-drefnu i ail-greu alaw gyfarwydd. | • Gwrando'n ofalus a chanfod y gwahaniaethau rhwng brawddegau.<br>• Trefnu'r brawddegau yn y drefn gywir i chwarae'r alaw. | • Sawl cyfle i ganu caneuon yr alawon a ddefnyddiwyd gyda'r plant er mwyn iddynt fod yn gyfarwydd iawn.<br>• Bydd plant llai galluog yn cael eu helpu gan gliwiau gweledol ar yr eiconau i helpu gyda'r dilyniannau. |

| **Amcanion Dysgu**<br>Dylai Disgyblion ddysgu… | **Gweithgareddau Posib** | **Canlyniadau Dysgu**<br>*Gall disgyblion…* | **Pwyntiu i'w Nodi** |
|---|---|---|---|
| **Tasgau byr wedi'u ffocysu (Parhad.)** | | | |
| • **Syniad allweddol:** bod nodau cerddorol yn gallu bod yn uwch neu'n is (traw) ac o hyd gwahanol.<br>• **techneg:** adnabod cynrychioliad graffigol o nodau uwch ac is a nodau byrrach a hirach.<br>• dilyn smotiau tarw gydag offerynnau taro wedi'u tiwnio a'i recordio gan ddefnyddio meicroffon cyfrifiadur neu recordydd tâp microphone or tape | • Os bydd y meddalwedd yn caniatáu, newidiwch olwg yr eiconau i'r cynrychioliad graffigol o nodau uwch ac is a nodau byrrach a hirach. Gall y plant ddilyn nodau eu halaw a chanu'r brawddegau.<br>• Paratowch rai cardiau gyda smotiau traw arnynt er mwyn i'r plant chwarae'r patrymau ar offerynnau taro wedi'u tiwnio. Gallent recordio eu hymdrechion a chwarae'r recordiad yn ôl i'w wirio yn erbyn y smotiau ar y cerdyn.<br>• Paratowch rai sgriniau cyfrifiadur gyda smotiau traw a gwnewch dri recordiad gwahanol i bob un, gyda dim ond un ohonynt â'r cynrychioliad cywir o'r smotiau. Gofynnwch i'r plant wrando ar y recordiadau a dod o hyd i'r un cywir. | • Nodi nodau uwch ac is drwy gynrychioliad graffigol ar y sgrîn.<br>• Chwarae offerynnau taro wedi'u tiwnio i ddilyn patrwm y smotiau traw a gwneud recordiad y gallant ei chwarae yn ôl.<br>• Gwrando ar gerddoriaeth daro wedi'i recordio a'i chyweirio a nodi'r patrwm sy'n cydweddu â'r smotiau traw. | • Gallai rhai plant wneud eu cardiau traw eu hunain i blant eraill eu perfformio<br>• Gallai disgyblion mwy galluog wneud eu smotiau traw eu hunain ar y sgrîn a recordio'r sain i gyd-fynd â nhw. |
| **Tasg Asesu** | | | |
| • trefnu brawddegau cerddorol, gan ddefnyddio offerynnau a tempo i greu cyfansoddiad.<br>• cadw eu gwaith gyda chymorth | • Gofynnwch i'r plant greu cyfansoddiad cerddorol ar y cyfrifiadur ar wahân, drwy drefnu brawddegau cerddorol mewn trefn effeithiol i chwarae alaw.<br>• Maen rhaid iddynt ystyried y tempo a dewis eu hofferyn.<br>• Chwaraewch y cyfansoddiad i'r dosbarth. | • Cyfansoddi darn o gerddoriaeth ar y cyfrifiadur<br>• Chwarae eu cyfansoddiad i'r dosbarth a siaradwch am eu dewisiadau.<br>• Cadw eu gwaith gyda chymorth. | • Annog y plant i ddefnyddio offerynnau taro i'w cyfansoddiad fel cyfeiliant<br>• Bydd rhai plant yn gallu cadw eu gwaith yn annibynnol. |



Mae'r unedau hyn wedi'u haddasu o ddeunyddiau sydd ar gael ar wefan Cynlluniau Gwaith y QCA